**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18 Mawrth 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 21 Mawrth 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 28 Mawrth 2022 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC – Prynu Rhyddfraint llecyn tir ger Maes Twnti, Morfa Nefyn**

**PENDERFYNIAD**

I brynu llecyn tir ger stad Maes Twnti, Morfa Nefyn a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago<br>Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 18.03.2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prynu Rhyddfraint llecyn tir ger Maes Twnti, Morfa Nefyn**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu llecyn tir ger stad Maes Twnti, Morfa Nefyn a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Tai (CGT) ym mis Chwefror 2021. Mae'r CGT yn ymgorffori 33 o gynlluniau sy'n gweithio tuag at y nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon sy'n fforddiadwy, ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Byddai prynu'r safle yma yn darparu potensial ar gyfer datblygu tai a fyddai'n cyfranu tuag at nod y Cynllun Gweithredu Tai o sicrhau cartrefi addas a fforddiadwy i bobl Gwynedd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn dilyn cynnal adolygiad cychwynnol o diroedd sydd a potensial i gyfranu tuag at amcanion y Cynllun Gweithredu Tai, adnabyddwyd safle Maes Twnti fel safle potensial ar gyfer datblygu tai i gyfarch anghenion lleol. Dylid nodi fod y potensial yma yn amodol ar sicrhau hawl cynllunio i ddatblygu.

Byddai prynu'r safle yma yn darparu potensial ar gyfer datblygu naw o dai o fewn y blynyddoedd nesaf.

Er fod hawl cynllunio wedi ei gymeradwyo ar ran o'r safle yn y gorffennol, nid oes hawl cynllunio cyfredol mewn lle, ac felly mae elfen o risg i fod yn prynu'r tir cyn bo hawl cynllunio ar gyfer datblygu'r safle wedi ei sicrhau. Serch hynny, mae ystyriaeth wedi ei roi i botensial datblygu'r safle yng nghyswllt polisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau datblygu ymarferol. Mae rhan o'r safle ofewn y ffin datblygu, gyda potensial ar gyfer ystryried gweddill y safle yn safle eithrio gwledig rhesymol, a fyddain caniniatau datblygu tai fforddiadwy.

Bydd y pryniant i gael ei ariannu o gronfa sydd wedi ei dynodi ar gyfer y Cynllun Gweithredu Tai.

Nid oes bwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am y llecyn tir.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**


Dim.

**Prif Swyddog Cyllid:** "Mae'r datblygiad hwn yn un o'r brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, ac mae'r cynllun yn egluro'n glir beth yw ffynhonnell ariannu'r gwahanol brosiectau sydd ynddo.  Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."

**Swyddog Monitro: "**Rwy'n nodi yr asesiad cynllunio sydd yn ynghlwm a'r argymhelliad. Fodd bynnag mae elfen o risg cynllunio hefyd yn perthyn i'r eiddo. Wrth dodd i benderfyniad mae angen i'r Aelod Cabinet ddal sylw at yr agwedd yma."

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Gareth Tudor Morris Jones**
"Cadarnhaf fy mod fel aelod lleol o blaid pryniant y tir ger Maes Twnti, Morfa Nefyn."




70 35 0 70 Meters

# Tir Ger Maes Twnti

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd